






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

27 Tachwedd 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

27 Tachwedd 2020

Crynodeb o’r Prif Bwyntiau

- Fel yr adroddwyd gan SAGE, amcangyfrifir bod gwerth R yng Nghymru rhwng 0.8 ac 1.0 (yr un fath â’r wythnos diwethaf), ac amcangyfrifir bod yr epidemig yn crebachu/tyfu -3% ac 1% y dydd; mae amcangyfrifon eraill gan ddefnyddio dangosyddion cynnar yn uwch.
- Ar 27 Tachwedd, mae’r achosion o COVID-19 drwyddi draw yng Nghymru wedi parhau i ddangos cynnydd. Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion mewn pobl 45 oed a throsodd, tra cynyddodd nifer yr achosion ym mhob grŵp oedran arall; gwelwyd nifer mwyaf o achosion mewn pobl 18-25 oed a phobl 85 oed a hŷn.
- Mae data [Astudiaeth Heintiadau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn dangos gostyngiad yn nifer y profion positif ledled Cymru (wythnos 15 i 21 Tachwedd 2020). Mae’r cyfraddau positifedd yng Nghymru wedi aros yn is nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ddiweddar.
- Ar 27 Tachwedd, cadarnhawyd bod defnydd ysbytai ar gyfer cleifion COVID-19 yn dangos arwyddion o leihau, ond mae’n dal yn uwch nag uchafbwynt mis Ebrill. Fodd bynnag, mae’r defnydd cyffredinol o unedau gofal dwys yn parhau’n uwch na’r dangosydd sbarduno coch ac mae data’n dangos nad yw cymhareb staffio 1:1 ar gyfer cleifion mewn unedau gofal dwys yn bosibl ledled Cymru.
- Mae marwolaethau o bob achos yn parhau’n uwch na’r cyfartaledd pum mlynedd yng Nghymru, ac yn ôl data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cynyddodd nifer y marwolaethau a oedd yn ymwneud â COVID-19 hyd at yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Tachwedd 2020. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau o ‘bob achos’ ac mae data diweddar gan lechyd Cyhoeddus Cymru (sydd ond yn cynnwys marwolaethau cleifion y cadarnhawyd bod COVID-19 arnynt) yn dangos bod nifer y marwolaethau COVID-19 wedi gostwng yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- Cynyddodd symudedd ychydig yr wythnos hon o’i gymharu â’r wythnos diwethaf. Er bod rhai meysydd fel manwerthu a hamdden a cheisiadau am gyfarwyddiadau gyrru ychydig yn uwch na chyn y cyfnod atal byr, mae symudedd ar gyfer gweithleoedd ychydig yn is.
- Mae [SAGE yn tynnu sylw](#) at y ffaith fod y rhan fwyaf o’r trosglwyddo’n digwydd oherwydd rhyngweithio hir ac agos â phobl gyfarwydd. Mae’r egwyddorion ar gyfer lleihau risg yn cynnwys: ystyried a yw cyswllt wyneb yn wyneb yn hanfodol, defnyddio manau awyr agored a chymunedol, diogelu pobl sy’n agored i niwed, sicrhau bod pobl sy’n agored i niwed yn emosiynol yn cael cymorth cymdeithasol,

cyfyngu ar hyd y cysylltiad (yn enwedig o dan do), cyfyngu’r rhyngweithio i’r un grŵp bach o bobl, rheoli amgylchedd y cartref a thrafod cynllun cyfarfod diogel.

- Bydd osgoi cysylltiadau cymdeithasol am gyfnod o 7-10 diwrnod o leiaf cyn cwrdd â phobl (yn enwedig pobl hŷn neu bobl agored i niwed) adeg y Nadolig neu ar gyfer dathliadau eraill yn helpu i leihau’r risg o drosglwyddo.
- [Mae data diweddar](#) yn dangos epidemigau'n crebachu ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau Haen 3 yn Lloegr ac yn dilyn cyfyngiadau ym mhob rhan o Ogledd Iwerddon. Mae’r darlun yn fwy cymysg ledled Cymru, ond yn gyffredinol dilynwyd y cyfnod atal byr gan ostyngiad mewn achosion newydd am 2-3 wythnos. Mae’r darlun hefyd yn fwy cymysg yng nghanolbarth yr Alban yn ystod cyfyngiadau yno, er mai’r duedd gyffredinol yw cyfradd twf is yn dilyn cyfyngiadau. Dylid cymryd gofal wrth bennu achosoldeb wrth drafod ymyriadau anfferyllol a lleihad mewn twf epidemig, ond ar y cyfan mae’r dystiolaeth ar hyn o bryd yn awgrymu bod yr ymyriadau cryfach a ddefnyddiwyd yn Lloegr (h.y. Haen 3) a Gogledd Iwerddon (h.y. cyfyngiadau cenedlaethol) wedi arwain at gyfraddau twf is. Er bod y darlun yn fwy cymysg yn yr Alban, gwelwyd twf arafach neu grebachu yn y rhan fwyaf o’r epidemigau ar ôl y cyfyngiadau yng nghanolbarth y wlad na’r hyn a welwyd o’r blaen. Roedd yr ymyriadau cryfach hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar gwrdd ag eraill (ar wahân i swigod cymorth), cau tafarndai, bariau a bwytai neu roi cyfyngiadau ar eu horiau agor, a chyfyngu ar deithio.
- Mae Swyddfa Gabinet Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi [papur](#) yn esbonio sut y mae’r gwahanol fathau o dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi’r farn bod risg sylweddol o drosglwyddo mewn lleoliadau lletygarwch.
- Yn gyffredinol, mae tystiolaeth yn dangos bod y cyfnod atal byr wedi gweithio i leihau achosion a heintiau yn y gymuned. Gwelwyd arwyddion cynnar o welliant o ran defnydd gwelyau mewn ysbytai ac unedau achosion brys ac o ran marwolaethau. Fodd bynnag, mae’r achosion yn cynyddu eto ac felly mae angen mwy o wyladwriaeth a gweithredu priodol o hyd i leihau effaith negyddol y feirws ar unigolion a gwasanaethau yng Nghymru, cyn ac yn ystod cyfnod yr ŵyl. Mae amcangyfrifon o R gan ddefnyddio dangosyddion cynnar [fel data CoMix](#), ynghyd â data symudedd, yn awgrymu y gallai ymddygiad pobl fod wedi dychwelyd i’r lefelau a welwyd cyn y cyfnod atal byr.
- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol [yma](#).

Cyfradd twf a’r rhif atgynhyrchu

- Mae SAGE yn amcangyfrif (26 Tachwedd) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng 0.03 a 0.01 yng Nghymru, sy’n dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng 3% a 1% y dydd.


- Mae SAGE (26 Tachwedd) yn rhagweld y bydd yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru rhwng 0.8 ac 1.0, sydd yr un fath â'r wythnos diwethaf. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae gwerth consensws SAGE ar gyfer R_t yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o fodelau sy'n defnyddio achosion, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau, a data o'r arolygon cyswllt. Mae gan lawer o'r dangosyddion hyn gyfnod oedi o 1-3 wythnos o'r adeg y pan fyddent yn nodi newid mewn heintiadau.
- Ceir amcangyfrifon eraill o R , a rhai ohonynt yn amcangyfrif gwerth uwch. Mae'n bwysig nodi bod gan bob amcangyfrif gryfderau a gwendidau. Er enghraifft, gall amcangyfrifon sy'n defnyddio [data CoMIX](#) gynnig arwyddion cynnar o newidiadau mewn trosglwyddo, ond maent yn seiliedig ar ddata arolygon cyswllt yn unig, ar sail sampl cymharol fach a data hunanadrodd.
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon R_t a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, a chan fod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau, y modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad, a faint o wasanaeth profi sydd ar gael.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif R_t uwch nag 1, yn parhau i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli amcangyfrifon a dylid ystyried y cyfyngau hyder.

Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion am bob 100,000 o bobl mewn cyfnod o 14 diwrnod yn wythnosau 46-47.
- Ymhlith 30 o wledydd â chyfraddau hysbysu uchel o ran achosion (o leiaf 60 am bob 100 000), gwelwyd cynnydd parhaus (am o leiaf saith diwrnod) mewn pum gwlad (Estonia, Latfia, Lithwania, Portiwgal a Sweden). Roedd gan un wlad (y Ffindir) gynnydd o lai na saith diwrnod. Gwelwyd tueddiadau sefydlog neu ostyngol mewn cyfraddau achosion o 1–22 diwrnod o hyd mewn 24 o wledydd (Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Czechia, Denmarc, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Liechtenstein, Lwcsembwrg, Malta, yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen a'r DU).
- Ymhlith 23 o wledydd lle'r oedd positifedd wythnosol y profion yn uchel (o leiaf 3%), roedd y positifedd mewn dwy wlad (Estonia a Phortiwgal) wedi cynyddu o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Roedd y positifedd yn sefydlog neu wedi gostwng

mewn 21 o wledydd (Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Czechia, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsebwrg, yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Romania, Sbaen, Sweden a'r DU).

- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data, ac amrywiaeth mewn polisiau profi, ar gael [yma](#).




Canlyniadau astudiaeth heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Mae data diweddar o astudiaeth heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos gostyngiad yn nifer y profion positif ledled Cymru. Mae'r cyfraddau positifedd yng Nghymru wedi aros yn is nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ddiweddar.
- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai dyma'r yw'r unig amcangyfrifon o heintiadau sy'n cynnwys achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac nid yw ffactorau eraill fel capasiti profi na nifer y bobl sy'n dod i gael eu profi yn effeithio arnynt. Mae'r canlyniadau ar gyfer aelwydydd preifat yn unig – y 'boblogaeth gymunedol' - ac nid ydynt yn cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 11 Hydref 2020 ar draws 4 gwlad y DU.

- Ar gyfer yr wythnos 15 i 21 Tachwedd, roedd gan gyfartaledd o 0.54% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy o 95: 0.34% i 0.78%).
- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 185 (cyfwng credadwy o 95: 1 o bob 290 i 1 o bob 125), neu 16,400 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95: 10,500 i 23,900).
- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

Cyfraddau positifedd (%) ledled gwledydd y DU ers 11 Hydref 2020




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Covid-19 25/11/20

- Cyhoeddir y canlyniadau llawn [yma](#)

Effeithiau'r cyfnod atal byr ar nifer yr achosion


- Mae'r ffigur isod yn dangos bod nifer yr achosion o COVID-19 y dydd a gadarnhawyd (swm treigl o 7 diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth) yn gostwng, ond dilynwyd hyn gan gynydd dilynol mewn achosion.



Ffynhonnell: Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Tachwedd 2020

Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran.
- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 27 Tachwedd, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion ymhlith pobl 45 oed a throsodd, tra cynyddodd nifer yr achosion ym mhob grŵp oedran arall; gwelwyd y nifer mwyaf o achosion ymhlith pobl 18-25 oed a phobl 85 oed a hŷn.




Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 27/11/2020

Cartrefi gofal

Rhwng 1 Mawrth a 20 Tachwedd 2020:


- Hysbyswyd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am 934 o farwolaethau preswylwyr mewn cartrefi gofal gydag amheuaeth neu gadarnhad o COVID-19. Mae hyn yn cynnwys 17% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.
- Adroddwyd bod 509 o'r rhain yn achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 a 425 yn achosion tybiedig o COVID-19.
- Digwyddodd y farwolaeth COVID-19 gyntaf y rhoddwyd gwybod i AGC amdani ar 16 Mawrth, a hynny mewn ysbyty.
- Fel y dangosir yn y Ffigur isod, mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 y rhoddwyd gwybod amdanynt i AGC wedi bod yn cynyddu ers mis Hydref.



Ffynhonnell: Hysbysiadau am Farwolaethau Defnyddwyr Gwasanaethau a dderbyniwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru; dadansoddiad ar gael [yma](#).

Marwolaethau


- Mae'r Ffigur isod yn dangos data gan lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n dangos y gwelwyd gostyngiad mewn marwolaethau yn yr wythnosau diwethaf (data fel ag yr oedd ar 25 Tachwedd 2020).
- Mae'n bwysig nodi bod y data hwn yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau drwy brawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu drigolion Cymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.



- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar farwolaethau COVID-19 a amheuir ac a gadarnhawyd gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac felly mae'n destun oedi.
- Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cynyddodd nifer y marwolaethau yng Nghymru a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 o 166 o farwolaethau (Wythnos 45) i 190 o farwolaethau (Wythnos 46; yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Tachwedd).
- Mae marwolaethau o bob achos yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd yng Nghymru, ond mae nifer y marwolaethau o bob achos wedi dangos gostyngiad o 832 yn Wythnos 45 i 742 yn Wythnos 46 (yr wythnos a ddaeth i ben 13 Tachwedd).
- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr holl farwolaethau o bob achos a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru rhwng 28 Rhagfyr 2019 a 13 Tachwedd 2020.

Wales


Weekly deaths



Ffynhonnell: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt

- Mae [data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer y cyfnod](#) 20-23 Tachwedd yng Nghymru yn dangos gostyngiadau mewn rhai categorïau yn dilyn diwedd y cyfnod atal byr. Roedd gostyngiadau yn nifer y bobl sy'n gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithio nad yw'n hanfodol, o'i gymharu â phythefnos yn ôl (yn ystod y cyfnod atal byr). Roedd categorïau eraill (fel osgoi trafnidiaeth gyhoeddus a gweithio gartref) yn debyg i'r hyn oeddent bythefnos yn ôl. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 16-22 Tachwedd yn dangos bod 43% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 43% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'.
- Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 47% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 41% arall eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i [ganlyniadau'r astudiaeth gymdeithasol covid](#).

Symudedd

- Mae'r data symudedd diweddaraf yn dangos cynnydd bach, yn bennaf, yng Nghymru o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Er bod rhywfaint o'r data ar yr un lefelau ag a welwyd cyn y cyfnod atal byr, mae rhai yn uwch (fel symudiad defnyddwyr Facebook a data symudedd manwerthu a hamdden Google). Mae'r lefelau ar gyfer gweithleoedd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn is na chyn y cyfnod atal byr. Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf mae symudedd wedi cynyddu ym mhob gwlad - ar wahân i'r Alban, sydd wedi gweld gostyngiadau.
- Mae symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn dangos bod symudedd 11% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 26 Tachwedd. Mae hyn i fyny o 13% yr wythnos flaenorol. Canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle'r oeddent (yn agos at eu cartrefi) oedd 25% - ychydig yn is na'r wythnos flaenorol

(26%). Mae'r ffigurau 'aros lle'r oeddent' yn debyg i cyn y cyfnod atal byr, ond mae'r symudiad ychydig yn uwch (roedd tua 13% yn yr wythnos cyn y cyfnod atal byr). Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.

- [Mae data Apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 28 Tachwedd yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu ychydig o'r wythnos flaenorol i 94% o'r llinell sylfaen (i fyny o 93%). Mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yn uwch na chyn y cyfnod atal byr (89%). Mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded wedi cynyddu ond mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus wedi gostwng ers yr wythnos diwethaf o'u cymharu â'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Nid yw [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 24 Tachwedd yn dangos unrhyw newid yn y data preswyl (h.y. pobl yn treulio amser gartref) o'i gymharu â'r wythnos flaenorol ar 9% yn uwch na'r llinell sylfaen. Mae hyn yn debyg i cyn y cyfnod atal byr. Hefyd, nid yw gweithleoedd yn dangos unrhyw newid (ar 23% yn is na'r llinell sylfaen), ychydig yn is na chyn y cyfnod atal byr (21% yn is). Mae manwerthu a hamdden (20% yn is na'r llinell sylfaen) ac archfarchnadoedd a fferylliaeth (5% yn is na'r llinell sylfaen) ill dau yn dangos cynnydd yn yr wythnos ddiwethaf. Fodd bynnag, mae trafnidiaeth gyhoeddus a pharciau yn dangos gostyngiadau o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



- Mae data ffôn symudol dienw ac agregedig gan gwmni O2 hyd at 20 Tachwedd yn dangos cynnydd mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol (a oedd yn cynnwys ychydig ddyddiau o'r cyfnod atal byr). Cynyddodd teithiau sy'n dechrau yng Nghymru 4 pwynt canran i 28% yn is na'r llinell sylfaen ac maent yn debyg i'r lefelau a welwyd cyn y cyfnod atal byr. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 26 Tachwedd 2020


- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Arhosodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt ac achosion tybiedig o COVID-19 yn sefydlog yn wythnos 47 o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol. Er hynny, lleihau wnaeth nifer y profion positif.
- Yn ystod wythnos 47, gostyngodd nifer yr achosion ymhlith pobl 45 oed a throsodd, ond cynyddodd nifer yr achosion mewn pobl o dan 45 oed.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a nifer yr episodau profi positif wedi cynyddu mewn llawer o ranbarthau byrddau iechyd yng Nghymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Ar lefel genedlaethol, gostyngodd nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty a chleifion mewnol yn yr ysbyty o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol eang, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau cyffredinol cynyddol mewn achosion a gadarnhawyd ar ôl gweld gostyngiadau yn yr wythnosau blaenorol.
- Mae niferoedd uchel o ddigwyddiadau'n parhau i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau ysgol.
- Roedd cyfyngiad 'cyfnod atal byr' ledled Cymru ar deithio nad yw'n hanfodol y tu allan i'r cartref rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd.

- Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion a gadarnhawyd o fewn yr wythnosau diwethaf, ond mae nifer yr achosion wedi cynyddu yr wythnos hon o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae marwolaethau o bob achos wedi cynyddu o gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd. Gwelwyd cynnydd yn y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.
- Mewn marwolaethau lle mae gwybodaeth ar gael o wyliadwriaeth marwolaethau cyflym lechyd Cyhoeddus Cymru, clefyd cronig y galon, diabetes a chlefyd anadlol cronig yw'r ffactorau risg a gofnodir amlaf (mewn 35%, 28% a 23% o farwolaethau yn y drefn honno).


Mae dangosfwrdd lechyd Cyhoeddus Cymru ar gael [yma](#) ac mae'n cynnwys dadansoddiad ar gyfer awdurdodau lleol.

Defnydd o welyau mewn ysbytai

Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 27 Hydref).



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 27 Tachwedd).




- Ar 27 Tachwedd, er y gwelwyd gostyngiadau yn nifer y cleifion COVID-19 a chleifion eraill sydd mewn unedau gofal dwys yn ystod yr wythnos a fu, nid oedd gofal 1:1 i bob claf mewn uned gofal dwys yn bosibl mewn rhai byrddau iechyd (roedd prysurdeb unedau gofal dwys yn 103% ar gyfer gofal 1:1, gyda chyfartaledd wythnosol o 105% mewn defnydd gwelyau ledled Cymru; gweler y tabl isod).
- Mae'r tabl isod yn manylu ar ddefnydd cyffredinol gwelyau unedau gofal dwys ar draws byrddau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys defnydd cyffredinol o unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae'n bosibl eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar y ffaith fod 152 ar gael ledled Cymru). Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.
- Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn dangos yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion eraill) pan ystyrir capasiti ychwanegol posibl.

- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti'r unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 257 o welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried amrywiadau rhanbarthol; mae rhai unedau gofal dwys yn agos at eu capasiti ac nid yw cludo cleifion COVID-19 sy'n ddifrifol wael mewn ambiwlans yn ddymunol oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.


Bwrdd Iechyd	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 %	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 (% o'r gwelyau cymhareb 1:1 sy'n cael eu defnyddio)	Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt	Cleifion sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19
Cymru	61%	103%	8	49
Aneurin Bevan (ABUHB)	57%	87%	5	5
Betsi Cadwaladr (BCUHB)	71%	115%	2	7
Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)	56%	96%	0	11
Caerdydd a'r Fro (CVUHB)	42%	114%	1	5
Hywel Dda (HDUHB)	75%	109%	0	3
Bae Abertawe (SBUHB)	93%	96%	0	18

- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrdau iechyd yng Nghymru.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Admissions




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Discharges



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

